

Myfyrdod yr Wythnos

Un o'r cyfresi teledu hynny ddaliodd ddychymyg llawer yn ddiweddar oedd Line of Duty. Cyfres am AC-12 - uned yn chwilio am lygredd o fewn yr heddlu. Roedd yr uned yn cael ei harwain gan Ted Hastings – Gwyddel hoffus llawn ymadroddion doniol, a'i ddau gynorthwy-ydd – Kate Fleming a Steve Arnott. Roedd yna chwe cyfres o raglenni, a sawl moment i'ch cadw ar flaen eich sedd, wrth i'r triawd ymchwilio a dod o hyd i swyddogion llwgr ymhlith yr heddlu. A daeth y gyfres olaf i ben gwpl o wythnosau'n ôl.

Rŵan, fydda i ddim yn rhoi llawer i ffwrdd wrth ddweud fod sawl un yn siomedig yn y ffordd y daeth y gyfres ddiwethaf i ben. Roedd yna sôn fod y cyfan yn mynd i ddod i uchafbwynt mawr – byddai'r holl gwestiynau'n cael eu hateb, a'r dihiryn mawr – y Pedwerydd dyn neu "H" yn cael ei ddadlennu. Ond pan ddigwyddodd hyn roedd lawer yn dweud – Ai hwn yn wir oedd yr un? Mae'n wir fod yna lawer o gwestiynau wedi eu hateb, ond fe godwyd rhai eraill, a'r cyfan rhywsut ddim yn gorffen yn daclus. Roedd Ted yn mynnu fod yna lygredd sefydliadol – institutional corruption – rhwydwaith o swyddogion llwgr yn yr heddlu, ac un uchel yn y rhengoedd yn cyfarwyddo'r OCGs – Organised Criminal Gangs. Ond fe orffennwyd y gyfres gyda'r rhai mewn awdurdod yn mynnu nad oedd yna lygredd yn y sefydliad, a'r Prif-Gwnstabl yn rhoi swyddi uchel i'w ffrindiau, Hastings yn cael ei orfodi i ymddeol, ac uned AC-12 yn cael ei ddirwyn i ben. Gadawyd ni yn gofyn – ydi'r broblem wedi ei sortio, neu ydi hi'n cael ei gwadu a'i chuddio?

Rŵan mae'r ansicrwydd yn golygu wrth gwrs fod yna bosibilrwydd o gyfres arall. Ond mae yna neges ddyfnach yno hefyd. Tydi'r byd ddim yr hyn ddylai fod. Rydyn ni gyd yn dymuno gweld byd gwell, ond ble bynnag y byddwn, gyda phobl eraill, mae yna amherffeithrwydd, gwrthdaro, loes wrth i bobl ein siomi, ac wrth i ninnau siomi eraill. Mae'n ymddangos fod yna lygredd sefydliadol o fewn y ddynolryw. Felly beth wnawn ni? Gallwn ei wadu, fel y Prif Gwnstabl yn Line of Duty. Mi fedrwn geisio ei reoli a'i goncro fel Ted Hastings, ond fe ddarganfu hwnnw ei fod o ei hunan yn methu weithiau. Neu a oes yna ffordd arall? Pan dybiai rhai y gellid datrys problemau'r byd trwy gadw rheolau, fe ddysgodd Iesu fod gwreiddyn y drwg mewn lle dyfnach. Oherwydd o'r galon y daw cynllunio drygionus, llofruddio, godinebu, puteinio, lladrata, cam-dystiolaethu, a chablu. Dyma'r pethau sy'n halogi rhywun; (Mathew 15:19-20) Mae'r broblem yn gorwedd yn ein calonnau ni.

Ond tydi hynny ddim yn golygu nad oes newid yn bosib. Mae'r Beibl yn dweud fod Duw yn gallu gweithio ynom i'n newid. Taenellaf ddŵr glân drosoch i'ch glanhau; a byddwch yn lân o'ch holl aflendid ac o'ch holl eilunod. Rhof i chwi galon newydd, a bydd ysbryd newydd ynoch; tynnaf allan ohonoch y galon garreg, a rhof i chwi galon gig. Rhof fy ysbryd ynoch, a gwneud ichwi ddilyn fy neddfau a gofalu cadw fy ngorchmynion. (Eseciel 36:25-27)

Ydi'r llanast yn y byd yn eich digalonni? Ydech chi'n rhwystredig am y llanast yn eich calon eich hunan? Beth am adael i'r Duw ddaeth i'n byd yn Iesu Grist gyflawni ei waith o ddifa'r llygredd – gan gychwyn ynoch chi, ac ynof fi.

Dafydd Job – Caplan Efengylaidd Cymraeg, a gweinidog Capel y Ffynnon